O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 16

Rheoliadau Paneli Maethu a Chynllunio Gofal (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

Gwnaed	*23 Ionawr 2026*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2026*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 16

The Fostering Panels and Care Planning (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2026

Made	*23 January 2026*
Coming into force	*1 April 2026*

£8.90

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 16

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Paneli Maethu a Chynllunio Gofal (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015") a Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018").

Mae Rheoliadau 2015 yn gwneud darpariaeth ynghylch cynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a materion cysylltiedig eraill.

Mae Rheoliadau 2018 yn gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau maethu mewn perthynas â sefydlu paneli maethu a'u swyddogaethau, ac mewn perthynas ag asesu darpar ofalwyr maeth.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau 2015 i wneud newidiadau mewn perthynas â lleoli plant gyda phersonau cysylltiedig o dan adran 81(6)(a) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4).

Mae rheoliad 3(2) yn diwygio rheoliad 31 o Reoliadau 2015 drwy ddarparu i amlder yr ymweliadau â'r lleoliadau hyn fod fesul ysbaid o ddim mwy na 6 mis.

Mae rheoliad 3(3) yn diwygio rheoliad 39 o Reoliadau 2015 drwy ddarparu i amlder yr adolygiadau o'r lleoliadau hyn fod fesul ysbaid o ddim mwy na 12 mis.

Mae rheoliad 4 yn diwygio Rheoliadau 2018.

Mae rheoliad 4(2) yn diwygio rheoliad 2 o Reoliadau 2018 i ddarparu bod cyfeiriadau at aelodau o aelwyd person yn cynnwys unrhyw berson sy'n byw yn yr aelwyd pa un ai o dan leoliad neu drefniant arall â'r awdurdod lleol.

Mae rheoliad 4(3) yn diwygio rheoliad 7 o Reoliadau 2018 i newid y gofynion ar gyfer asesu darpar ofalwyr maeth.

Mae rheoliad 4(4) yn ychwanegu rheoliad newydd 10A at Reoliadau 2018 i wneud darpariaeth ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng darparwyr gwasanaethau maethu.

Mae rheoliad 4(5) yn gwneud darpariaeth ar gyfer diwygio Atodlen 1 i Reoliadau 2018. Mae'r diwygiadau'n cynnwys darpariaeth ar gyfer Rhan newydd 3 o Atodlen 1 sy'n nodi'r wybodaeth i'w darparu wrth asesu darpar ofalwr maeth sy'n berthynas, yn gyfaill neu'n berson arall sy'n gysylltiedig â'r plentyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

2026 Rhif 16

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Paneli Maethu a Chynllunio Gofal (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

Gwnaed	*23 Ionawr 2026*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 87, 93(1)(a), 94A(1)(a) a (b), 97(4)(a), 97(5), 100(1)(b) a (d), 100(2)(a), 102(1) a (2) a 196(1) a (2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Paneli Maethu a Chynllunio Gofal (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2026.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Rheoliadau 2015" ("*the 2015 Regulations*") yw Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015(**2**);

ystyr "Rheoliadau 2018" ("*the 2018 Regulations*") yw Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018(**3**).

Diwygio Rheoliadau 2015

3.—(1) Mae Rheoliadau 2015 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 31 (amlder yr ymweliadau), yn lle paragraff (2)(c) rhodder—

"(c) wedi hynny—

(**1**) 2014 dccc 4. Gweler adran 197(1) am y diffiniadau o "penodedig", "a bennir", "a bennwyd" a "rheoliadau".
(**2**) O.S. 2015/1818 (Cy. 261), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/48 (Cy. 15); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**3**) O.S. 2018/1333 (Cy. 260), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(i) pan wneir y lleoliad yn unol ag adran 81(6)(a) o Ddeddf 2014, ar amlder i'w benderfynu gan yr awdurdod cyfrifol ar ôl ymgynghori â'r SAA, F, P ac C y mae rhaid iddo fod fesul ysbaid o ddim mwy na 6 mis,

(ii) pan na wneir y lleoliad yn unol ag adran 81(6)(a) ond bwriedir iddo barhau hyd nes bo C yn 18 oed, fesul ysbaid o ddim mwy na 3 mis, a

(iii) mewn unrhyw achos arall, fesul ysbaid o ddim mwy na 6 wythnos."

(3) Yn rheoliad 39 (amseru adolygiadau)—

(a) ym mharagraff (2)—

(i) yn y testun Saesneg, ar ôl "carried" yn y lle cyntaf y mae'n digwydd mewnosoder "out";

(ii) hepgorer—

", a rhaid cynnal adolygiadau dilynol fesul ysbaid o ddim mwy na 6 mis";

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(2A) Rhaid cynnal adolygiadau dilynol fesul ysbaid o ddim mwy na 6 mis, ac eithrio pan wneir y lleoliad yn unol ag adran 81(6)(a) o Ddeddf 2014.

(2B) Pan wneir y lleoliad yn unol ag adran 81(6)(a) o Ddeddf 2014, rhaid i amlder yr adolygiadau gael ei benderfynu gan yr awdurdod cyfrifol ar ôl ymgynghori â'r SAA, F, P ac C, a rhaid i'r adolygiadau fod fesul ysbaid o ddim mwy na 12 mis.";

(c) ym mharagraff (3), yn lle "neu (2)" rhodder ", (2), (2A) neu (2B)";

(d) ym mharagraff (4), yn lle "neu (2)" rhodder ", (2), (2A) neu (2B)".

Diwygio Rheoliadau 2018

4.—(1) Mae Rheoliadau 2018 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) ar y dechrau mewnosoder "(1)";

(b) ar ddiwedd y rheoliad mewnosoder y paragraff a ganlyn—

"(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriadau at aelodau o aelwyd person yn cynnwys unrhyw berson sy'n byw yn yr aelwyd pa un ai o dan leoliad neu drefniadau eraill â'r awdurdod lleol."

(3) Yn rheoliad 7 (asesu darpar rieni maeth)—

(a) ym mharagraff (2)(a) hepgorer "a'i deulu";

(b) yn lle paragraff (2)(e) (ond nid yr "ac" ar ei ôl) rhodder—

"(e) rhaid iddo, pan fo'r person wedi ei gymeradwyo yn rhiant maeth gan ddarparwr gwasanaethau maethu arall neu gan ddarparwr gwasanaethau maethu yn Lloegr a'i fod yn cydsynio i rannu ei wybodaeth, ofyn am gael mynediad i'r canlynol os ydynt wedi eu llunio gan y darparwr gwasanaethau maethu arall hwnnw—

(i) yr adroddiad a lunnir o dan baragraff (5)(c),

(ii) yr adroddiad ar yr adolygiad diweddaraf o gymeradwyaeth a lunnir o dan reoliad 9(4),

(iii) unrhyw gofnodion o dan reoliad 20(4)(d) o Reoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018,

(iv) unrhyw gofnodion o dan reoliad 21(4)(d) o Reoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019,

(v) yr adroddiad a lunnir o dan reoliad 26(2)(c) o Reoliadau 2011,

(vi) yr adroddiad ar yr adolygiad diweddaraf o gymeradwyaeth a lunnir o dan reoliad 28(4) o Reoliadau 2011,

(vii) unrhyw gofnodion o dan baragraff 4 o Atodlen 6 i Reoliadau 2011, ac

(viii) unrhyw gofnodion eraill a all fod yn berthnasol i addasrwydd y person i fod yn rhiant maeth,";

(c) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(2A) Yn y rheoliad hwn ystyr "Rheoliadau 2011" yw Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Lloegr) 2011.

(2B) Pan fo darparwr gwasanaethau maethu yn gwneud cais i ddarparwr gwasanaethau maethu arall neu ddarparwr gwasanaethau maethu yn Lloegr am eirda o dan baragraff (2)(b) neu am gofnodion o dan baragraff (2)(e), rhaid gwneud y cais yn ysgrifenedig.";

(d) yn lle paragraff (5)(a) rhodder—

"(a) cael yr wybodaeth sy'n ymwneud â'r person ac aelodau eraill o aelwyd y person a bennir—

(i) yn Rhan 3 o Atodlen 1 pan fo'r person yn berthynas, yn gyfaill neu'n berson arall sy'n gysylltiedig â'r plentyn, neu

(ii) yn Rhan 2 o Atodlen 1 ym mhob achos arall,";

(e) ar ôl paragraff (5)(a) mewnosoder—

"(aa) cael unrhyw wybodaeth arall y mae'r darparwr gwasanaethau maethu yn ystyried ei bod yn berthnasol,";

(f) ym mharagraff (5)(b) hepgorer "ar gyfer unrhyw blentyn";

(g) ym mharagraff (6), ar ôl "baragraff (5)(a)" mewnosoder "ac (aa)";

(h) ym mharagraff (11)—

(i) hepgorer "(neu blant)";

(ii) hepgorer "(neu'r plant hynny)";

(iii) yn lle is-baragraff (a) (ond nid y "neu" ar ei ôl) rhodder—

"(a) bod y person yn berthynas, yn gyfaill neu'n berson arall sy'n gysylltiedig â'r plentyn,";

(i) hepgorer paragraff (12).

(4) Ar ôl rheoliad 10 (gwybodaeth sydd i'w hanfon i'r panel adolygu annibynnol) mewnosoder—

“Rhannu Gwybodaeth

10A.—(1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys pan fo darparwr gwasanaethau maethu yn cael cais am wybodaeth a wneir o dan reoliad 7(2)(b) (cais am eirda) neu (e) (cais am gofnodion).

(2) Ar ôl cael cais am wybodaeth o dan reoliad 7(2)(b) neu (e) rhaid i’r darparwr gwasanaethau maethu—

(a) darparu’r wybodaeth i’r graddau nad yw wedi ei wahardd rhag gwneud hynny drwy unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol arall,

(b) darparu’r wybodaeth o fewn 15 niwrnod gwaith, ac

(c) darparu’r wybodaeth heb unrhyw gost i’r darparwr gwasanaethau maethu sy’n gofyn amdani.”

(5) Yn Atodlen 1 (gwybodaeth am ddarpar rieni maeth ac aelodau eraill o’u haelwyd a’u teulu)—

(a) yn y pennawd hepgorer “a’u teulu”;

(b) yn y nodyn cyfeirio yn lle “, (5) a (12)” rhodder “a (5)”;

(c) ym mharagraff 8, yn y testun Saesneg, yn lle “addressed” rhodder “addresses”;

(d) ar ôl Rhan 2 mewnosoder—

“RHAN 3

18. Manylion personoliaeth, argyhoeddiad crefyddol, tarddiad hiliol, cefndir diwylliannol ac ieithyddol.

19. Manylion unrhyw ymwneud cyfredol neu flaenorol â’r awdurdod lleol.

20. Manylion dynameg deuluol, gan gynnwys perthnasau o fewn yr aelwyd, gyda’r teulu estynedig a phersonau cysylltiedig eraill.

21. Sgiliau, cymhwysedd a photensial sy’n berthnasol i’w gallu i ddarparu gofal addas ar gyfer y plentyn a enwir ac i ddiwallu ei anghenion presennol a’i anghenion tebygol yn y dyfodol.

22. Gallu i amddiffyn ac i hybu diogelwch a llesiant y plentyn a enwir yng nghyd-destun y ddynameg deuluol ac unrhyw ymwneud cyfredol neu flaenorol â’r awdurdod lleol.

23. Ffordd o fyw ac ymrwymiadau cyfredol, gan gynnwys cyflogaeth neu alwedigaeth yn y gorffennol a’r presennol, llety, gweithgareddau hamdden, diddordebau a chyfrifoldebau gofalu sy’n berthnasol i’w gallu i ofalu’n effeithiol am y plentyn a enwir.

24. Manylion unrhyw gymorth neu unrhyw ymyrraeth sy’n angenrheidiol i ofalu’n effeithiol am y plentyn a enwir neu i liniaru unrhyw risgiau a nodwyd.

25. Gallu i gydweithredu â’r ddarpariaeth o unrhyw gymorth neu unrhyw ymyrraeth y nodwyd ei fod neu ei bod yn angenrheidiol.”

Dawn Bowden
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
23 Ionawr 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 16

CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

SOCIAL CARE, WALES

The Fostering Panels and Care Planning (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend the Care Planning, Placement and Case Review (Wales) Regulations 2015 ("the 2015 Regulations") and the Fostering Panels (Establishment and Functions) (Wales) Regulations 2018 ("the 2018 Regulations").

The 2015 Regulations make provision about care planning for looked after children, and other associated matters.

The 2018 Regulations impose requirements on fostering services providers in relation to the establishment and functions of fostering panels, and in relation to the assessment of prospective foster carers.

Regulation 3 amends the 2015 Regulations to make changes in relation to the placement of children with connected persons under section 81(6)(a) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (anaw 4).

Regulation 3(2) amends regulation 31 of the 2015 Regulations by providing for the frequency of visits to these placements to be at intervals of not more than 6 months.

Regulation 3(3) amends regulation 39 of the 2015 Regulations by providing for the frequency of reviews of these placements to be at intervals of not more than 12 months.

Regulation 4 amends the 2018 Regulations.

Regulation 4(2) amends regulation 2 of the 2018 Regulations to provide that references to members of a person's household include any person living in the household whether under a placement or other arrangement with the local authority.

Regulation 4(3) amends regulation 7 of the 2018 Regulations to change the requirements for the assessment of prospective foster carers.

Regulation 4(4) adds a new regulation 10A to the 2018 Regulations to make provision for information sharing between fostering services providers.

Regulation 4(5) makes provision for amendments to Schedule 1 to the 2018 Regulations. The amendments include provision for a new Part 3 of Schedule 1 that sets out the information to be provided when assessing a prospective foster carer who is a relative, friend or other person connected with the child.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Health, Social Care and Early Years Group, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

2026 No. 16

CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

SOCIAL CARE, WALES

The Fostering Panels and Care Planning (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2026

Made	*23 January 2026*
Coming into force	*1 April 2026*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 87, 93(1)(a), 94A(1)(a) and (b), 97(4)(a), 97(5), 100(1)(b) and (d), 100(2)(a), 102(1) and (2) and 196(1) and (2) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014(**1**), make the following Regulations.

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Fostering Panels and Care Planning (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2026.

(2) These Regulations come into force on 1 April 2026.

Interpretation

2. In these Regulations—

"the 2015 Regulations" ("*Rheoliadau 2015*") means the Care Planning, Placement and Case Review (Wales) Regulations 2015(**2**);

"the 2018 Regulations" ("*Rheoliadau 2018*") means the Fostering Panels (Establishment and Functions) (Wales) Regulations 2018(**3**).

Amendments to the 2015 Regulations

3.—(1) The 2015 Regulations are amended as follows.

(2) In regulation 31 (frequency of visits), for paragraph (2)(c) substitute—

"(c) thereafter—

(**1**) 2014 anaw 4. See section 197(1) for the definitions of "regulations" and "specified".
(**2**) S.I. 2015/1818 (W. 261), amended by S.I. 2018/48 (W. 15); there are other amending instruments but none is relevant to these Regulations.
(**3**) S.I. 2018/1333 (W. 260), to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(i) where the placement is made in accordance with section 81(6)(a) of the 2014 Act, at a frequency to be determined by the responsible authority following consultation with the IRO, F, P and C that must be at intervals of not more than 6 months,

(ii) where the placement is not made in accordance with section 81(6)(a) but is intended to last until C is 18, at intervals of not more than 3 months, and

(iii) in any other case, at intervals of not more than 6 weeks."

(3) In regulation 39 (timing of reviews)—

(a) in paragraph (2)—

(i) in the English language text, after "carried" in the first place it occurs insert "out";

(ii) omit—

", and subsequent reviews must be carried out at intervals of no more than 6 months";

(b) after paragraph (2) insert—

"(2A) Subsequent reviews must be carried out at intervals of not more than 6 months, except where the placement is made in accordance with section 81(6)(a) of the 2014 Act.

(2B) Where the placement is made in accordance with section 81(6)(a) of the 2014 Act, the frequency of reviews must be determined by the responsible authority following consultation with the IRO, F, P and C, and the reviews must be at intervals of not more than 12 months.";

(c) in paragraph (3), for "or (2)" substitute ", (2), (2A) or (2B)";

(d) in paragraph (4), for "or (2)" substitute ", (2), (2A) or (2B)".

Amendments to the 2018 Regulations

4.—(1) The 2018 Regulations are amended as follows.

(2) In regulation 2 (interpretation)—

(a) at the beginning insert "(1)";

(b) at the end of the regulation insert the following paragraph—

"(2) In these Regulations, references to members of a person's household include any person living in the household whether under a placement or other arrangements with the local authority."

(3) In regulation 7 (assessment of prospective foster parents)—

(a) in paragraph (2)(a) omit "and family";

(b) for paragraph (2)(e) (but not the "and" after it) substitute—

"(e) must, where the person was approved as a foster parent by another fostering services provider or by a fostering services provider in England and consents to the sharing of their information, request access to the following if prepared by that other fostering services provider—

(i) the report prepared under paragraph (5)(c),

(ii) the report of the most recent review of approval prepared under regulation 9(4),

(iii) any records under regulation 20(4)(d) of the Local Authority Fostering Services (Wales) Regulations 2018,

(iv) any records under regulation 21(4)(d) of the Regulated Fostering Services (Service Providers and Responsible Individuals) (Wales) Regulations 2019,

(v) the report prepared under regulation 26(2)(c) of the 2011 Regulations,

(vi) the report of the most recent review of approval prepared under regulation 28(4) of the 2011 Regulations,

(vii) any records under paragraph 4 of Schedule 6 to the 2011 Regulations, and

(viii) any other records that may be relevant to the person's suitability to be a foster parent,";

(c) after paragraph (2) insert—

"(2A) In this regulation "the 2011 Regulations" means the Fostering Services (England) Regulations 2011.

(2B) Where a fostering services provider makes a request to another fostering services provider or a fostering services provider in England for a reference under paragraph (2)(b) or for records under paragraph (2)(e), the request must be made in writing.";

(d) for paragraph (5)(a) substitute—

"(a) obtain the information relating to the person and other members of the person's household specified in—

(i) Part 3 of Schedule 1 where the person is a relative, friend or other person connected with the child, or

(ii) Part 2 of Schedule 1 in all other cases,";

(e) after paragraph (5)(a) insert—

"(aa) obtain any other information the fostering services provider considers to be relevant,";

(f) in paragraph (5)(b) omit "for any child";

(g) in paragraph (6), after "paragraph (5)(a)" insert "and (aa)";

(h) in paragraph (11)—

(i) omit "(or children)";

(ii) omit "(or those children)";

(iii) for sub-paragraph (a) (but not the "or" after it) substitute—

"(a) the person is a relative, friend or other person connected with the child,";

(i) omit paragraph (12).

(4) After regulation 10 (information to be sent to the independent review panel) insert—

“Information Sharing

10A.—(1) This regulation applies where a fostering services provider receives a request for information made under regulation 7(2)(b) (a request for a reference) or (e) (a request for records).

(2) Upon receipt of a request for information under regulation 7(2)(b) or (e) the fostering services provider must—

(a) provide the information in so far as they are not prohibited from doing so by any enactment or other rule of law,

(b) provide the information within 15 working days, and

(c) provide the information at no cost to the requesting fostering services provider.”

(5) In Schedule 1 (information as to prospective foster parents and other members of their household and family)—

(a) in the heading omit “and family”;

(b) in the reference note for “, (5) and (12)” substitute “and (5)”;

(c) in paragraph 8, in the English language text, for “addressed” substitute “addresses”;

(d) after Part 2 insert—

“PART 3

18. Details of personality, religious persuasion, racial origin, cultural and linguistic background.

19. Details of any current or previous involvement with the local authority.

20. Details of family dynamics, including relationships within the household, with extended family and other connected persons.

21. Skill, competence and potential relevant to their capacity to provide suitable care for the named child and to meet their current and likely future needs.

22. Capacity to protect and promote the safety and well-being of the named child in the context of the family dynamics and current or previous local authority involvement.

23. Current lifestyle and commitments, including past and present employment or occupation, accommodation, leisure activities, interests and caring responsibilities relevant to their capacity to effectively care for the named child.

24. Details of any support or intervention necessary to effectively care for the named child or mitigate any identified risks.

25. Ability to co-operate with the provision of any support or intervention identified as necessary.”

Dawn Bowden
Minister for Children and Social Care, under authority of the Cabinet Secretary for Health and Social Care, one of the Welsh Ministers
23 January 2026

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839786-4

9 780348 397864